LC268

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**
**DRAFT**

**Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 7) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cyfuno'r diwygiadau a wnaed i Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983 gan y gorchmynion diwygio cynharach sy'n dwyn y rhifau 4-6.  Mae hefyd yn diwygio Gorchymyn 1983 mewn perthynas â'r materion a nodir yn benodol yn y Nodyn Esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r ddarpariaeth ynghylch dod i rym ar frig y Gorchymyn ac yn Erthygl 1(2) yn cyfeirio at ddod ag Erthygl 37C i rym.

Mae'r effaith a fwriedir yn hyn o beth yn ddigon clir, ond y cyfeiriad priodol mewn gwirionedd fyddai cyfeirio at Erthygl 37C fel y mae wedi'i mewnosod gan Erthygl 2.

Hefyd, nodwyd bod Erthygl 2(2) a phennawd yr Atodlen yn cyfeirio at "Schedule 1" er nad oes yr un Atodlen arall.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01- XX

16 Mai 2001